5.2 - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

CÔD YMDDYGIAD AR GYFER CYNGHORWYR A SWYDDOGION O RAN MATERION CYNLLUNIO

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r côd ymddygiad hwn yn dilyn y nodyn cyfarwyddyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol ar uniondeb mewn cynllunio a rôl Cynghorwyr a swyddogion ac argymhelliad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Nolan ac yn arbennig gyhoeddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol ar Uniondeb mewn Cynllunio ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru Mawrth 2002 (Para.4.1.9. Mae'r Côd hefyd yn ceisio sicrhau bod swyddogion ac aelodau yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.

2. RHAGYMADRODD

2.1 Nid gwyddor fanwl fel y cyfryw yw cynllunio. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar bwyso a mesur yn ofalus ar sail gwybodaeth o fewn cyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn fater hynod ddadleuol gan fod y penderfyniadau yn effeithio ar fywyd pob yr un ohonom a buddiannau personol unigolion, tirberchnogion a datblygwyr. I ychwanegu at hyn, rhaid i'r system fod yn agored (mae'n gwahodd y cyhoedd i leisio'u barn cyn fod penderfyniad yn cael ei wneud), a dilyn gofynion cyfreithiol cynlluniau datblygu a hysbysiadau penderfyniadau. Mae'n holl bwysig felly mai nodweddion y broses yw gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw.

2.2 Un o ddibenion allweddol y system gynllunio yw rheoli datblygiad er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni'r rôl hon, mae cynllunio o reidrwydd yn effeithio ar fuddiannau tir ac eiddo, yn enwedig gwerth ariannol daliadau tir ac ansawdd eu hamgylchedd. Mae'n bwysig felly bod awdurdodau cynllunio yn gwneud y penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar y buddiannau hyn, yn agored, yn ddiduedd, ar ôl pwyso a mesur yn ddoeth ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses roi unrhyw reswm dros gredu gydag unrhyw gyfiawnhad bod penderfyniad wedi bod yn unochrog, yn rhagfarnllyd neu heb fod ar dir cadarn mewn unrhyw fodd.

2.3 Diben y côd hwn yw nodi'n glir y modd y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â cheisiadau cynllunio. Mae'r côd yn berthnasol i'r Cynghorwyr ac i'r Swyddogion fel ei gilydd.

- Mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn gymwys i'r Cyfarwyddyd hwn drwyddo draw. Mae'r Côd hwn yn nodi, ymhlith pethau eraill, bod yn rhaid i Aelodau'r Awdurdod:-

(a) cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau drwy dalu sylw dyladwy i'r angen am hybu cyfle cyfartal i bawb, waeth beth yw eu cenedl, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth at eraill,

(b) peidio â gwneud dim sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu gallu gweithwyr cyflogedig yr Awdurdod i fod yn ddiduedd,
.

(c) peidio â datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol, heb gydsyniad pendant person a awdurdodir i roi'r cydsyniad hwnnw, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu hynny;

(d) yn rhinwedd eu swyddi neu fel arall, peidio â defnyddio'u safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais neu anfantais i unrhyw berson ac yn benodol felly eu teulu, eu cyfeillion neu'r rhai y mae ganddynt gysylltiad personol agos â hwy, nac i sicrhau mantais iddynt eu hunain;

(f) sicrhau nad yw adnoddau'r Awdurdod yn cael eu defnyddio'n amhriodol at eu dibenion preifat eu hunain, eu teulu, eu cyfeillion a'r personau y mae ganddynt gysylltiad personol agos â hwy.

(g) gwneud penderfyniadau ar sail rhinweddau'r amgylchiadau ac er lles y cyhoedd, a rhaid gwneud penderfyniadau drwy roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan swyddogion yr Awdurdod – yn arbennig gan:

(i) Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod sy'n gweithredu yn unol â dyletswyddau'r swyddog hwnnw o dan adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

(ii) Swyddog Monitro yr Awdurdod sy'n gweithredu yn unol â dyletswyddau'r swyddog hwnnw o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(iii) Prif Swyddog Cyfreithiol yr Awdurdod y dylid ymgynghori ag ef os oes unrhyw amheuaeth ynghylch pwer yr Awdurdod i weithredu, neu ynghylch a yw'r cam a gynigir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr Awdurdod; lle gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig;

2.3.2 Sail y system gynllunio yw ystyried cynigion preifat yn erbyn buddiannau ehangach y cyhoedd yn gyffredinol.

2.3.3 Mae gweithredu'r system gynllunio yn dibynnu ar sicrhau bod swyddogion ac Aelodau yn gweithredu mewn modd sydd nid yn unig yn deg ond sydd i'w weld yn amlwg yn deg.

2.3.4 Dim ond drwy benderfyniad y Cyngor neu Bwyllgor y gellir rhoi cyfarwyddiadau i swyddogion. Hefyd gall swyddogion weithredu ar benderfyniadau Pwyllgor a hefyd ar gamau o weithredu o fewn y cynllun dirprwyo.

2.3.5 Dim ond cynghori all swyddogion wneud oni ddirprwyir yr hawl iddynt yn glir gan Aelodau i weithredu ar ran yr Awdurdod.

2.3.6 Ni ddylai Aelodau roi pwysau gormodol ar swyddogion i wneud argymhelliad penodol o ran materion cynllunio.

2.3.7 Bydd y Cyngor Sir yn gweithredu o fewn llythyren y ddeddf ac o fewn ysbryd y ddeddf. Yn arbennig bydd yn cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn A.54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y bydd "wrth wneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, yn talu sylw i'r cynllun datblygu, ac y gwneir y penderfyniad yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall." Dylai'r cyfeiriad at y Cynllun yn y cyd-destun hwn hefyd gynnwys Cynllun Lleol Dinefwr a Chynllun Lleol Dosbarth Caerfyrddin a'r Cynllun Datblygu Unedol sydd yn yr arfaeth.

3. HYFFORDDIANT

3.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn hyfforddiant cychwynnol pan fyddant yn gwasanaethu am y tro cyntaf ar y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau i'r graddau y mae ystyried ceisiadau cynllunio yn y cwestiwn, ac yn diweddaru hyfforddiant wedi hynny. Mae'r Cyngor wedi penderfynu na chaiff aelodau wasanaethu ar y Pwyllgor Cynllunio nac ar y Pwyllgor Gwyriadau oni bai ei fod ef/hi wedi mynychu hyfforddiant priodol. Bydd swyddogion yn derbyn hyfforddiant lle bo'n briodol, a disgwylir iddynt ymgyfarwyddo â'r newidiadau mewn deddfwriaeth ac arfer fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

3.2 Ar ddechrau bob blwyddyn galendr bydd y Pennaeth Cynllunio yn sicrhau bod cwrs hyfforddiant perthnasol undydd ar gael i bob Aelod etholedig o'r Cyngor. Bydd yn orfodol i bob Aelod a darpar ddirprwyon o'r Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau am y flwyddyn Gyngor ddilynol, fynychu'r cwrs.

4. CYFARFODYDD AG YMGEISWYR A PHARTÏON SYDD Â BUDDIANT

4.1 Cydnabyddir bod lobïo yn rhan arferol a hollol briodol o'r broses wleidyddol. Wrth gael eu lobïo, rhaid i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau yn enwedig, ofalu peidio â mynegi barn y gellid ei gymryd i ddynodi eu bod eisoes wedi penderfynu ar y mater cyn derbyn yr holl dystiolaeth a chyn clywed yr holl ddadleuon. Yn y cyfryw amgylchiadau, dylent gyfyngu eu hunain i roi cyngor ar y weithdrefn, gan gynnwys awgrymu i'r rhai sy'n lobïo y dylent gael gair â'r swyddog perthnasol neu ysgrifennu ato, er mwyn i'w sylwadau gael eu cynnwys yn adroddiad y swyddog i'r Pwyllgor. Dylid ei gwneud yn hollol glir y bydd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol ond ar ôl clywed yr holl dystiolaeth a'r dadleuon perthnasol yn y Pwyllgor.

4.2 Dylid ei gwneud yn glir o'r cychwyn cyntaf na fydd y trafodaethau yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniad penodol.

4.3 Lle cynhelir cyfarfodydd rhwng swyddogion ac ymgeiswyr neu drydydd parti, dylid ei gwneud yn glir o'r cychwyn cyntaf na fydd y trafodaethau yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniad penodol, a bod unrhyw farn a fynegir yn farn broffesiynol ac yn gynderfynol. Ni wneir argymhellion ar gais cynllunio hyd nes y bydd yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys ymateb i'r ymgynghori, wedi dod i law.

4.4 Dylai swyddogion ei gwneud yn glir bob amser mai eu rôl hwy yw ymgynghori, ac mai'r Aelodau sy'n gwneud penderfyniadau. Dylid disgrifio cwmpas y pwerau dirprwyo lle bo hynny'n briodol (gweler para. 9.1).

4.5 Dylid cadw nodyn ysgrifenedig o bob cyfarfod ffurfiol rhwng swyddogion a/neu aelodau etholedig, ymgeiswyr a phartïon sydd â buddiant.

4.6 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir ganddynt yn gyson ac yn seiliedig ar y cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol. Ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y modd y mae gwahanol swyddogion cynllunio yn dehongli polisïau cynllunio. Hefyd dylai pob swyddog sy'n cymryd rhan yn y cyfryw drafodaethau ei gwneud yn glir ai hwy neu beidio sy'n gwneud y penderfyniad. Dylai cyngor swyddogion fod yn ddiduedd.

4.7 Gall Cynghorwyr Sir sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau a hefyd yn Aelodau o Gyngor Cymuned, fod yn bresennol mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned pan drafodir ceisiadau cynllunio. Serch hynny, wrth siarad mewn unrhyw drafodaeth, rhaid i'r Cynghorydd Sir gyfyngu ei gyfraniad i gyngor ar bolisi cynllunio Cenedlaethol neu'r Cyngor Sir, a rhaid cymryd gofal i beidio â mynegi barn ar rinweddau'r cais nac mewn unrhyw ffordd roi'r argraff ei fod eisoes wedi gwneud ei feddwl i fyny. Os yw Cynghorydd Sir yn mynegi barn, neu'n pleidleisio ar gais mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, bydd hynny yn ei wahardd rhag cymryd unrhyw ran mewn trafodaeth neu mewn gwneud penderfyniad ar lefel y Cyngor Sir.

5. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

5.1 Bydd pob cais cynllunio a ddaw gerbron y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau yn destun adroddiad ysgrifenedig llawn gan gynnwys asesiad o'r cynnig, a'r rhesymau dros yr asesiad, ac argymhelliad y gellir ei gyfiawnhau.

5.2 Bydd unrhyw faterion newydd, sydd wedi codi rhwng paratoi'r adroddiad a dyddiad y Pwyllgor, yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor fel atodiad ysgrifenedig i'r adroddiad. Dim ond y materion hynny a ddaeth i law ar y diwrnod cyn y cyfarfod neu ar ddiwrnod y cyfarfod gaiff eu hadrodd ar lafar, a chofnodir hynny yn y cofnodion.

5.3Pan gaiff cais ei wrthod yn unol ag argymhellion y swyddog, y rheswm dros wrthod fydd y rheswm a nodir yn adroddiad y swyddog. Mae gan swyddogion bwerau dirprwyedig i ychwanegu at resymau os bu datblygiadau yn y cyfarfod neu ar ôl paratoi'r adroddiad.

5.4 Caiff ceisiadau a benderfynir yn groes i argymhellion y swyddog eu hategu gan resymau clir a phendant ar sail ystyriaethau cynllunio perthnasol. Cyfeirir at y rhesymau yn y cofnodion, a hefyd bydd copi o'r cofnod yn cael ei gynnwys ar ffeil yr ymgeisydd. Caiff ceisiadau, sy'n groes i'r Cynllun Datblygu, eu cyfeirio at y Pwyllgor Gwyriadau i'w hystyried.

6. LOBÏO

6.1 Mae pob Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau i osgoi mynegi barn, y gellir ei gymryd fel petaent eisoes wedi dod i gasgliad, nac ymrwymo'r Awdurdod mewn rhyw ffordd arall ar gais cynllunio tan i'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys atebion i'r ymgynghori, tystiolaeth a dadleuon, gael eu rhoi ger eu bron.

6.2 Gall Aelodau Lleol sydd hefyd yn aelodau o'r Pwyllgorau dan sylw gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad cyn belled ag y cydymffurfir â Chôd Ymddygiad y Cyngor a'r Côd hwn.

6.3 Mae Aelodau i gymryd gofal a defnyddio eu synnwyr cyffredin i osgoi unrhyw awgrym bod eu gallu i fod yn ddiduedd ac yn unplyg yn cael ei gwestiynu. Wrth gael eu lobïo, dylai Aelodau ei gwneud yn glir na fyddant yn ffurfio barn derfynol ar gynnig, fel y trafodir ym mhara 4.1, ond y gallant roi cyngor ar weithdrefn, gan gynnwys awgrymu i'r rhai sy'n lobïo y dylent gael gair â'r swyddog perthnasol neu ysgrifennu ato er mwyn i'w sylwadau gael eu cynnwys yn adroddiad y swyddog i'r Pwyllgor Cynllunio a/neu'r Pwyllgor Gwyriadau.

7. DATGANIADAU BUDDIANT PERSONOL AC ARIANNOL

7.1 Mae'r gyfraith a Chôd Ymddygiad y Cyngor yn nodi'r gofynion a'r cyfarwyddyd ar gyfer cynghorwyr ar ddatgan buddiant personol ac ariannol. Mae methiant i wneud hynny yn gyfystyr â thorri'r Côd Ymddygiad fydd yn esgor ar gyfle i gwyno wrth Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru.

7.2 Buddiannau Ariannol: Cedwir cofrestr o fuddiannau ariannol yr Aelodau gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, sydd hefyd yn Swyddog Monitro y Cyngor. Mae'r gofrestr yn agored i'r cyhoedd i'w harchwilio. Os yw Aelod yn bresennol mewn cyfarfod pan ystyrir eitem y mae ganddo fuddiant ariannol ynddi, rhaid iddo ddatgan ei fuddiant a gadael y cyfarfod.

7.3 Buddiannau Personol: Nodir diffiniad manwl-gywir o fuddiannau personol yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer yr Aelodau. Mae aelodau sydd â buddiant personol yn cael eu gwahardd rhag siarad neu bleidleisio ar y mater oni fyddant wedi cael gollyngiad gan Bwyllgor Safonau y Cyngor. Mae rhai mathau o fuddiant personol yn cael eu hystyried yn rhai na ellir rhoi gollyngiad ar eu cyfer. Cynghorwyr unigol sy'n gyfrifol am ddatgelu buddiant. Os oes gan y Cynghorydd unrhyw amheuaeth a oes ganddo fuddiant personol neu beidio, dylai'r Cynghorydd bob amser chwarae'n saff a datgan y cyfryw fuddiant a gadael y cyfarfod.

7.4 Dylai Aelodau ofyn am farn y Swyddog Monitro lle mae achos ganddynt bryderu y gallai buddiannau fod yn gwrthdaro.

7.5 Mae'r Swyddog Monitro yn cadw cofrestr o fuddiannau ariannol Swyddogion ac yn diweddaru'r gofrestr yn gyson. Ni fydd unrhyw swyddog sydd ag unrhyw fuddiant ariannol neu anariannol mewn unrhyw gais cynllunio yn cymryd unrhyw ran yn y gwaith o brosesu na gwneud penderfyniad ar y cais hwnnw.

8. PANELI CYFARFODYDD SAFLE

8.1 Gall y Pwyllgor Cynllunio neu'r Pwyllgor Gwyriadau ofyn am gyfarfod safle. Bydd y Pwyllgor wedyn yn ymweld â safle'r cais cynllunio. Trefnir y cyfarfod safle yn ofalus yn unol â'r protocol sydd ynghlwm.

8.2 Mae'r Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Gwyriadau i roi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd am gyfarfod safle.

8.3 Bydd hawl gan y personau a enwir yn y protocol annerch y cyfarfod safle yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen.

8.4 Bydd awdurdod dirprwyedig gan y Pwyllgor Cynllunio neu'r Pwyllgor Gwyriadau, yn dilyn ymweliad safle, i benderfynu ar y cais sydd ger ei fron.

9. DEFNYDDIO PWERAU DIRPRWYEDIG

9.1 Bydd swyddogion yn ymarfer eu hawliau dirprwyo i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun dirprwyo, fydd yn cynnwys pob cais cynllunio, ac eithrio'r canlynol:

- Nid yw'r cynllun yn caniatáu rhoi caniatâd mewn achosion lle derbyniwyd gwrthwynebiad ar sail cynllunio er bod y pwer i gymeradwyo wedi'i ddirprwyo.

- Pan fydd aelodau lleol wedi gwneud cais ysgrifenedig (naill ai drwy lythyr neu drwy e-bost) o fewn y cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod, eu bod yn dymuno i'r cais cynllunio gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio.

10. ADOLYGU

10.1 Bydd gweithredu'r Côd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad blynyddol o Gyfansoddiad y Cyngor.